Y Comisiwn Etholiadol

Etholiadau Senedd Ewrop ym Mhrydain Fawr

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantau

Rhan 4 o 6 – Yr ymgyrch

Mawrth 2019

Dim ond i etholiad Senedd Ewrop ym Mhrydain Fawr ar 23 Mai 2019 y mae'r ddogfen hon yn berthnasol. Gellir cael mynediad at ein canllawiau ac adnoddau i'r holl etholiadau eraill oddi ar ein gwefan yn: http://www.electoralcommission.org.uk/i-am-a/candidate-or-agent.

2

Cynnwys

Gwybodaeth hanfodol 4

Pryd allwch chi gychwyn ymgyrchu? 5

Beth i'w wneud ac i beidio â gwneud wrth ymgyrchu 6

Yn ystod yr ymgyrch, cewch… 6

Yn ystod yr ymgyrch, ni ddylech… 7

Defnyddio'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau pleidleiswyr absennol 8

Mynediad i ymgeiswyr unigol 8

Mynediad i bleidiau cofrestredig 8

Cyfyngu ar ddefnyddio'r wybodaeth yn y gofrestr etholiadol a'r rhestr o bleidleiswyr absennol 8

Gwneud cais am gopi o'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau pleidleiswyr absennol 9

Mynediad i ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus 10

Postio un cyfathrebiad etholiad yn rhad ac am ddim 11

Beth i'w wneud a pheidio ei wneud gyda chyhoeddusrwydd ymgyrch 11

Defnyddio argraffnodau 12

Beth i'w wneud a pheidio ei wneud ar ddiwrnod yr etholiad 14

Cynnal hygrededd yr etholiad 15

Rhestr troseddau 16
Tretio.....16
Dylanwad gormodol 17
Cambersonadu.....17
Datganiadau ffug am gymeriad neu ymddygiad personol ymgeisydd 17
Gwybodaeth gofrestru ffug a chais pleidleisio drwy'r post/dirprwy ffug.....18
Cais ffug i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy.....18
Troseddau pleidleisio lluosog a phleidleisio drwy ddirprwy.....18
Torri cyfrinachedd y bleidlais 18
Deunydd cyhoeddusrwydd yr ymgyrch 19
Casineb hiliol.....19
Adrodd ynghylch honiadau o gamymddwyn etholiadol 19
Beth os ydych chi wedi gwneud camgymeriad?.....20

4

Gwybodaeth hanfodol

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ar ymgyrchu yn etholiad Senedd Ewrop yn Lloegr, yr Alban a Chymru ar 23 Mai 2019. Ceir gwybodaeth atodol, sydd efallai ond yn berthnasol i rai ymgeiswyr, yng nghefn y ddogfen hon. Gallwch hefyd weld y canllawiau ategol trwy glicio ar y dolenni yn y ddogfen hon neu drwy glicio ar y pennawd pennod ar y dudalen gynnwys.

Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â'ch tîm Comisiwn lleol os oes gennych unrhyw gwestiynau. Gweler ein dogfen trosolwg am fanylion cyswllt.

Yn y ddogfen hon, defnyddiwn 'chi' i gyfeirio at yr ymgeisydd (p'un a yw'n unigolyn ynteu wedi ei gynnwys ar restr plaid). Defnyddiwn 'rhaid' i gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol a 'dylai' i argymell ffordd o weithredu.

Rydym wedi cynnwys terfynau amser perthnasol trwy gydol y ddogfen hon, ond gallwch ddod o hyd i amserlen etholiad ar wahân sy'n nodi'r holl ddyddiadau allweddol ar ein gwefan.

O ganlyniad i ŵyl y banc yn Gibraltar ar 29 Ebrill ac 1 Mai 2019, mae rhai terfynau amser etholiadol yn rhanbarth y De-orllewin yn wahanol i'r dyddiadau cau mewn mannau eraill ym Mhrydain Fawr. Lle bo hyn yn berthnasol, rydym wedi cynnwys terfyn amser y De-orllewin mewn cromfachau ochr yn ochr â'r terfyn amser ar gyfer gweddill Prydain Fawr.

Mae deddfwriaeth diogelu data yn berthnasol i brosesu holl ddata personol.

Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am fwy o wybodaeth ynghylch sut mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn effeithio arnoch chi.

Pryd allwch chi gychwyn ymgyrchu?

1.1 Gallwch gychwyn ymgyrchu ar unrhyw amser. Nid oes raid i chi aros neb byddwch wedi cael eich enwebu yn ddilys i ddatgan y byddwch yn sefyll yr etholiad, gofyn i bobl eich cefnogi neu gyhoeddi deunydd ymgyrch.

1.2 Fodd bynnag, efallai y bydd terfynau gwariant etholiad yn berthnasol. Daw terfynau gwario etholiad i rym i ymgeiswyr unigol o'r dyddiad y daw'r unigolyn yn ymgeisydd swyddogol (gweler isod).

1.3 Mae'r cyfnod rheoledig ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn dechrau ar 23 Ionawr 2019. Mae'r holl wariant ymgyrchu yn etholiad Senedd Ewrop yn cyfrif tuag at derfyn y blaid. Nid oes gan ymgeiswyr ar restr y blaid derfyn ar wahân, oherwydd bod rhaid i'r blaid roi cyfrif am yr holl wariant.

1.4 I gael rhagor o wybodaeth am wariant etholiad, gweler Rhan 3: Gwariant a rhoddion i ymgeiswyr unigol.

Mae'r holl wariant ar ran ymgeiswyr rhestr plaid yn wariant ymgyrchu plaid. Rydym yn cynhyrchu canllawiau i bleidiau sy'n cyflwyno rhestr pleidiau ar wahân.

Pryd mae ymgeisydd unigol yn dod yn ymgeisydd swyddogol?

1.5 Y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad yw 15 Ebrill 2019 (12 Ebrill 2019 yn rhanbarth etholiadol y De Orllewin).

1.6 Byddwch yn dod yn ymgeisydd unigol swyddogol ar y diwrnod hwn os ydych ar neu cyn 14 Ebrill 2014 (11 Ebrill 2014 yn rhanbarth etholiadol De Orllewin Lloegr) eisoes wedi datgan eich hun yn ymgeisydd yn yr etholiad, neu fod person arall wedi datgan eich bod yn ymgeisydd.

1.7 Os ar ôl y dyddiad hwn eich bod chi neu eraill yn datgan y byddwch yn ymgeisydd yn yr etholiad, byddwch yn dod yn ymgeisydd ar y dyddiad y gwneir datganiad o'r fath, neu ar y dyddiad y cyflwynir eich papurau enwebu, p'un bynnag yw'r cynharaf.

Dylai ceisiadau i gofrestru neu am bleidlais absennol sydd yn cael eu rhoi i chi neu'ch ymgyrchwyr gael eu hanfon ymlaen heb eu haddasu at y Swyddog Cofrestru Etholiadol o fewn dau ddiwrnod gwaith o'u derbyn.

6

Beth i'w wneud ac i beidio â gwneud wrth ymgyrchu

Yn ystod yr ymgyrch, cewch…

- Annog pobl nad ydynt ar y gofrestr etholiadol i wneud cais i gofrestru. Y terfyn amser ar gyfer cofrestru i bleidleisio yn yr etholiadau Ewropeaidd yw **7 Mai, 2019.** Gall unigolion gofrestru arlein yn www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio. Mae ffurflenni cais a mwy o wybodaeth ynghylch pwy all gofrestru yn www.dybleidlaisdi.co.uk.
- Helpu pleidleiswyr gyda gwybodaeth am bleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy - gallwch ddod o hyd i ffurflenni cais a gwybodaeth yn www.dybleidlaisdi.co.uk/. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy'r post i'r etholiadau yw **5pm ar 8 Mai 2019.** Y terfyn amser ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy i'r etholiadau yw **5pm ar 15 Mai 2019.** O dan rhai amgylchiadau gall etholwyr wneud cais am ddirprwy mewn argyfwng **hyd at 5pm ar y diwrnod pleidleisio (23 Mai 2019).** Gall etholwr wneud cais am ddirprwy mewn argyfwng os, ar ôl 5pm ar 15 Mai eu bod wedi cael argyfwng meddygol neu wedi eu galw i ffwrdd ar fusnes.

Yn ystod yr ymgyrch, dylech…

- Os ydych yn datblygu eich ffurflenni cais pleidlais absennol eich hun, sicrhewch eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, neu bydd y ceisiadau'n cael eu gwrthod. Yn arbennig, rhaid i chi sicrhau bod y meysydd llofnod a dyddiad geni ar ffurflenni cais pleidleisiau drwy'r post a thrwy ddirprwy yn y fformat cywir ac yn ymddangos yn erbyn cefndir clir. Dylech ddefnyddio ein ffurflenni cais pleidleisio absennol yn www.dybleidlaisdi.co.uk fel canllaw. Dylech siarad â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fydd yn gallu rhoi ffurflenni i chi eu defnyddio.

Ni ddylech drin na chymryd unrhyw bapur pleidleisio na phecyn pleidleisio post gan bleidleiswyr.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi canllawiau i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr ynghylch sut mae cydraddoldeb a hawliau dynol yn effeithio ar ymgyrch etholiadol. Mae copi o'u canllawiau ar gael yma: www.equalityhumanrights.com/electoral-guidance.

Nid yw'r Swyddog Canlyniadau na'r Comisiwn yn rheoleiddio'r troseddau hyn. Dylid gwneud unrhyw gwynion i'r heddlu.

- Sicrhau fod eich cefnogwyr yn dilyn ein Cod Ymddygiad ar gyfer ymgyrchwyr ym Mhrydain Fawr ac unrhyw godau lleol sydd efallai gan y Swyddog Canlyniadau Lleol neu Ranbarthol yn eu lle - bydd hyn yn eu helpu osgoi sefyllfaoedd lle y gellid cwestiynu eu gonestrwydd neu hygrededd. Gwnewch yn siŵr fod eich cefnogwyr yn gwrtais wrth ddelio gydag ymgeiswyr a chefnogwyr eraill.
- Fod yn ymwybodol o'r terfynau amser ar gyfer penodi asiantau etholiad, is-asiantiaid ac asiantiaid i fynychu sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post, gorsafoedd pleidleisio a'r cyfrif. Mae'r terfynau amser wedi'u nodi yn ein dogfen ganllawiau Rhan 2a: Sefyll fel ymgeisydd unigol a Rhan 2b: Sefyll fel ymgeisydd plaid a chanllawiau i bleidiau cofrestredig sy'n cyflwyno rhestrau plaid.
- Wirio ein canllawiau ar sut mae agor pleidleisiau drwy'r post, y broses bleidleisio a'r cyfrif yn gweithio, fel eich bod yn gwybod beth y gallwch ei ddisgwyl a phryd. Gweler Rhan 5: Eich hawl i fynychu digwyddiadau etholiadol allweddol.
- Wirio fod eich systemau ar gyfer cofnodi gwariant a rhoddion yn gweithio.

Yn ystod yr ymgyrch, ni ddylech…

- Dalu (neu addo talu) i ganfaswyr. Mae canfasio yn golygu ceisio darbwyllo etholwr i bleidleisio dros neu yn erbyn ymgeisydd neu blaid benodol.

1.8 Gellir gweld rhagor o wybodaeth am droseddau etholiad a sut i adrodd amdanynt yn yr adran gwybodaeth ategol ar ddiwedd y ddogfen hon (o baragraff **1.50** ymlaen).

1.9 Os ydych chi, asiant etholiad ymgeisydd unigol, neu is-asiant wedi gwneud camgymeriad ac wedi gweithredu yn groes i'r rheolau, gallwch wneud cais am ryddhad o ganlyniadau gwneud camgymeriad. Gweler paragraff **1.76** am ragor o wybodaeth.

8

Defnyddio'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau pleidleiswyr absennol

Mynediad i ymgeiswyr unigol

1.10 Mae gan ymgeiswyr unigol (ar ôl iddynt ddod yn ymgeisydd swyddogol fel y disgrifir ym mharagraff **1.5**) ac asiant etholiad plaid gofrestredig (unwaith fo enwebiad y blaid wedi ei gyflwyno) yr hawl i dderbyn copi yn rhad ac am ddim o'r gofrestr etholiadol lawn a'r rhestrau o bobl sy'n pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy (rhestrau 'pleidleiswyr absennol') i'r rhanbarth etholiadol lle maent yn ymladd.

Mynediad i bleidiau cofrestredig

1.11 Mae gan asiant etholiad plaid wleidyddol gofrestredig yr hawl i gael copi yn rhad ac am ddim o'r gofrestr etholiadol lawn a'r rhestrau pleidleiswyr absennol ar gyfer y cyfan o'r rhanbarth etholiadol. Dim ond ar ôl i Swyddog Enwebu'r blaid, neu rywun a awdurdodwyd yn ysgrifenedig i weithredu ar eu rhan, gyflwyno ffurflen enwebu y gall y gofrestr a rhestrau gael eu cyflenwi i'r asiant etholiad.

1.12 Fodd bynnag, mae gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig yr hawl i gael a defnyddio'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau pleidleiswyr absennol ar unrhyw adeg at ddibenion etholiadol ac, yn achos y gofrestr, ar gyfer gwirio rhoddion.

Cyfyngu ar ddefnyddio'r wybodaeth yn y gofrestr etholiadol a'r rhestr o bleidleiswyr absennol

1.13 Y fersiwn y byddwch yn ei dderbyn fydd yr un sy'n gyfredol ar adeg eich cais. Gallwch hefyd ofyn am gael y rhestr o etholwr sydd newydd eu cofrestru pan gaiff ei gyhoeddi bum diwrnod gwaith cyn y bleidlais (16 Mai 2019).

Mae dwy gofrestr. Pam?
Gan ddefnyddio gwybodaeth a dderbyniwyd gan y cyhoedd, mae swyddogion cofrestru yn cadw dwy gofrestr - y gofrestr etholiadol a'r gofrestr agored (a elwir y gofrestr olygedig hefyd).

Y gofrestr etholiadol
Mae'r gofrestr etholiadol yn rhestru enwau a chyfeiriadau pawb sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cyhoeddus. Defnyddir y gofrestr at ddibenion etholiadol, megis sicrhau mai dim ond pobl sy'n gymwys i wneud all bleidleisio. Fe'i defnyddir hefyd at ddibenion cyfyngedig eraill a nodir mewn cyfraith, megis canfod trosedd (e.e. twyll), galw pobl i wasanaeth rheithgor a gwirio ceisiadau credyd.

Y gofrestr agored
Mae'r gofrestr agored yn ddetholiad o'r gofrestr etholiadol, ond ni chaiff ei ddefnyddio ar gyfer etholiadau. Gall gael ei brynnu gan unrhyw berson, cwmni neu sefydliad. Er enghraifft, caiff ei ddefnyddio gan fusnesau ac elusenau i

1.14 Mae'r gofrestr etholiadol llawn a'r rhestr o bleidleiswyr absennol yn cynnwys data personol, ac felly caiff eu defnydd ei reoli'n llym.

1.15 Gallwch ddefnyddio'r manylion i:

- eich helpu i ymgyrchu
- wirio bod rhoddion yn rhai a ganiateir

1.16 Ni ddylech ddatgelu i neb unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos ar y gofrestr etholiadol a ddim ar y gofrestr agored, sydd ar gael i'w werthu. Ni ddylech ddefnyddio'r gofrestr etholiadol na'r rhestrau o bleidleiswyr absennol at unrhyw ddibenion na restrir uchod.

1.17 Os ydych wëid rhoi copi o'r gofrestr etholiadol neu'r rhestrau o bleidleiswyr absennol i ymgyrchwyr, mae'n rhaid iddyn nhw hefyd gydymffurfio gyda'r gofynion uchod.

1.18 Mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn cadw'r gofrestr etholiadol yn ddiogel a'r rhestr o bleidleiswyr absennol yn ddiogel. Pan nad oes angen y gofrestr na'r rhestr o bleidleiswyr absennol arnoch at ddibenion etholiadol, dylech ddinistrio unrhyw gopïau'n ddiogel a roddwyd i chi fel ymgeisydd yn unol â chanllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Gwneud cais am gopi o'r gofrestr etholiadol a'r rhestrau pleidleiswyr absennol

1.19 Mae copïau o'r gofrestr a'r rhestrau pleidleiswyr absennol ar gael gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol. Penodir Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yn y rhanbarth etholiadol i gynnal y cofrestrau etholiadol. Ceir manylion cyswllt yn www.dybleidlaisdi.co.uk/.

1.20 Rhaid i'r cais fod yn ysgrifenedig, ac rydym wedi gwneud ffurflen gais cofrestru a ffurflen gais am restrau pleidleiswyr absennol ar gael i'r diben hwn ar ein gwefan.

1.21 Er bod rhaid i geisiadau gael eu gwneud i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, dylai asiantau etholiad yr ymgeiswyr rhestr plaid ac ymgeiswyr unigol hefyd siarad â'r Swyddog(ion) Canlyniadau Rhanbarthol perthnasol. Efallai y byddant yn gallu

Gall unrhyw unigolyn a geir yn torri'r cyfyngiadau ar ddefnyddio'r gofrestr etholiadol wynebu dirwy ddiderfyn yng Nghymru a Lloegr, neu ddirwy o hyd at £5,000 yn yr Alban.

cynorthwyo i gydlynu eich ceisiadau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar draws y rhanbarth.

1.22 Bydd y gofrestr a'r rhestrau yn cael eu cyflenwi mewn fformat electronig oni bai y gofynnir yn benodol am gopi papur.

1.23 Y fersiwn o'r cofrestrau a'r rhestrau y bydd ymgeiswyr ac asiantiaid etholiadol yn ei dderbyn fydd yr un sy'n gyfredol ar adeg gwneud y cais. Gallant hefyd wneud cais am ddiweddariadau i'r gofrestr a'r rhestrau sy'n cael ey cyhoeddi yn y cyfnod cyn y bleidlais, gan gynnwys y rhestr o etholwyr sydd newydd gofrestru pan gaiff ei gyhoeddi bum diwrnod cyn y bleidlais (16 Mai 2019)

Mynediad i ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus

1.24 Efallai y byddwch eisiau ymgysylltu â'r cyhoedd mewn cyfarfodydd cyhoeddus, gan hyrwyddo eich barn ac ymateb i gwestiynau gan y gynulleidfa.

1.25 Mae gan unrhyw ymgeisydd unigol neu ymgeisydd rhestr plaid yr hawl i ddefnyddio ystafelloedd ac ysgolion a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus. Mae gan ymgeiswyr unigol yr hawl hwn o'r adeg y maent yn dod yn ymgeisydd swyddogol fel y disgrifir ym mharagraffau **1.5**. Mae gan ymgeiswyr rhestr plaid yr hawl hwn unwaith y cyflwynir ffurflen enwebu'r blaid a'r rhestr ymgeiswyr.

1.26 Mae pob Swyddog Cofrestru Etholiadol yng Nghymru a Lloegr yn cadw rhestr o'r holl ystafelloedd cyfarfod perthnasol yn eu hardal, a'u hargaeledd, a byddant yn sicrhau fod y wybodaeth hon ar gael i ymgeiswyr ac asiantau i edrych arni o'r diwrnod y caiff yr hysbysiad etholiad ei gyhoeddi tan y diwrnod cyn y diwrnod pleidleisio. Mae manylion cyswllt ar gael yn www.dybleidlaisdi.co.uk . Yn yr Alban, y Swyddog Canlyniadau Lleol sy'n cadw'r rhestr o ystafelloedd cyfarfod.

1.27 Dylech gysylltu â pherchennog yr eiddo i'w archebu, gan roi rhybudd rhesymol i leihau'r risg y caiff y cais ei wrthod.

Nid yw hawl ymgeiswyr i ddefnyddio ystafelloedd mewn ysgol yn cynnwys oriau pan fo'r ysgol yn cael ei defnyddio i ddibenion addysgol. Yn yr un modd, rhaid i unrhyw archeb flaenorol o'r ystafell gyfarfod gael blaenoriaeth.

1.28 Nid oes tâl llogi ar gyfer defnyddio'r ystafelloedd hyn, ond rhaid i chi dalu am unrhyw dreuliau, megis gwresogi, goleuo a glanhau, ac am unrhyw ddifrod i'r eiddo.

Postio un cyfathrebiad etholiad yn rhad ac am ddim

1.29 Mae pob plaid wleidyddol gofrestredig ac ymgeiswyr unigol sydd wedi eu cynnwys ar y datganiad o ymgeiswyr unigol a phleidiau a enwebwyd yr hawl i gael postio un cyfathrebiad etholiad sydd i'w anfon allan ar draws y rhanbarth etholiadol yn rhad ac am ddim.

1.30 Bydd postio yn rhad ac am ddim ar naill ai:

- un cyfathrebiad etholiad heb ei gyfeirio hyd at 60 gram i bob cyfeiriad post, neu
- un cyfathrebiad etholiad hyd at 60 gram wedi'i gyfeirio at bob etholwr

1.31 Dylai pleidiau ac ymgeiswyr unigol gysylltu â'r darparwr gwasanaeth cyffredinol megis y Post Brenhinol i wneud trefniadau petaent yn dymuno anfon cyfathrebiad etholiad allan yn rhad ac am ddim. Gall darparwyr o'r fath ofyn iddynt gydymffurfio â'u telerau ac amodau rhesymol eu hunain. Yn ogystal, ni chaiff unrhyw ddeunydd a anfonir gynnwys gwybodaeth am unrhyw etholiad arall nac unrhyw hysbysebu arall.

Beth i'w wneud a pheidio ei wneud gyda chyhoeddusrwydd ymgyrch

1.32 Rhaid i chi:

- Ddefnyddio argraffnodau ar eich holl ddeunydd ymgyrchu, gan gynnwys gwefannau. Dylech sicrhau bod yr argraffnod yn glir a gweladwy. Gweler paragraff **1.38** isod am ragor o wybodaeth.
- Gydymffurfio â rheolau cynllunio sy'n ymwneud â hysbysfyrddau hysbysebu a baneri mawr - dylech ofyn i'r awdurdod lleol perthnasol am gyngor.

- Gofio sicrhau bod posteri awyr agored yn cael eu symud yn brydlon ar ôl yr etholiad - mae'n rhaid i chi wneud hyn o fewn pythefnos.

1.33 Dylech:

- Gynnwys argraffnod ar bob deunydd ymgyrchu na chaiff ei argraffu, gan gynnwys gwefannau.

- Ystyried sut i wneud eich ymgyrch yn fwy hygyrch i bobl sydd â nam ar eu golwg, anawsterau dysgu neu sgiliau llythrennedd isel, neu sydd ag iaith gyntaf nad yw'n Saesneg neu, yng Nghymru, y Gymraeg. Efallai y byddwch eisiau cysylltu gyda grwpiau anabledd yn eich ardal leol am gyngor.

1.34 Ni chewch:

- Gynhyrchu deunydd sy'n edrych fel y cardiau pleidleisio a anfonir i bleidleiswyr gan y Swyddog Canlyniadau Lleol.
- Dalu i bobl arddangos eich hysbysebion (oni bai eu bod yn arddangos hysbysebion fel rhan o'u busnes arferol).

Defnyddio argraffnodau

Beth yw argraffnod?

1.35 Yn ôl y gyfraith rhaid i argraffnod gael ei ychwanegu at ddeunydd ymgyrch i ddangos pwy sy'n gyfrifol am ei gynhyrchu. Mae'n helpu i sicrhau bod yr ymgyrch yn dryloyw. Dylech sicrhau bod eich argraffnod yn glir a gweladwy.

Beth sydd angen i chi ei gynnwys?

1.36 Ar ddeunydd printiedig, fel taflenni a phosteri, rhaid i chi gynnwys enw a chyfeiriad:

- yr argraffydd
- yr hyrwyddwr

- unrhyw un y mae'r deunydd yn cael ei argraffu ar ei ran (ac nad yw'n hyrwyddwr)

1.37 Yr hyrwyddwr yw'r unigolyn sydd wedi awdurdodi argraffu'r deunydd. Os yw'r hyrwyddwr yn gweithredu ar ran grŵp neu sefydliad, rhaid cynnwys enw'r grŵp neu sefydliad a'u cyfeiriad hefyd.

1.38 Gallwch ddefnyddio cyfeiriadau cartref neu swyddfa.

1.39 Os ydych yn rhoi hysbyseb mewn papur newydd, nid oes raid i'ch hysbyseb gynnwys manylion yr argraffydd, ond mae'n rhaid bod enw a chyfeiriad argraffwyr y papur newydd yn ymddangos ar dudalen flaen neu ôl y papur newydd. Mae'n rhaid i'r hysbyseb gynnwys enw a chyfeiriad yr hyrwyddwr ac unrhyw berson y mae'r hysbyseb yn cael ei gyhoeddi ar ei ran. Os yw'r hyrwyddwr a'r person y mae'r hysbyseb ar ei gyfer yr un person, yn does ond cynnwys yr enw a'r cyfeiriad unwaith.

Argraffnodau enghreifftiol

1.40 Dylai argraffnod safonol ar gyfer ymgeiswyr annibynnol edrych fel hyn:

> Argraffwyd gan [enw a chyfeiriad yr argraffydd].
>
> Hyrwyddwyd gan [enw'r asiant] o [cyfeiriad yr asiant] ar ran [enw'r ymgeisydd] o [cyfeiriad yr ymgeisydd].

1.41 Os yw'r ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant ei hun, yna mae'n debygol iawn mai hwy hefyd fydd hyrwyddwr y deunydd. Os yw hyn yn wir, nid yw'n ofynnol cael y geiriad 'ar ran' yn yr argraffnod.

1.42 Dylai argraffnod safonol plaid sy'n sefyll mewn etholiad Senedd Ewrop edrych fel hyn:

> Argraffwyd gan [enw a chyfeiriad yr argraffydd].
>
> Hyrwyddwyd gan [enw'r asiant] o [cyfeiriad yr asiant] ar ran [enw'r ymgeisydd] o [cyfeiriad yr ymgeisydd].

1.43 Ym mhob achos, rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr argraffnod yn rhestru'r holl hyrwyddwyr a sefydliadau sy'n cymryd rhan.

Ble ddylech chi roi'r argraffnod?

1.44 Os yw'r deunydd ar un ochr – fel poster mewn ffenestr – rhaid i chi roi'r argraffnod ar wyneb y ddogfen. Os yw'n amlochrog, rhaid i chi ei roi ar y dudalen gyntaf neu'r olaf.

Cyfryngau Cymdeithasol

1.45 Dylech arddangos eich manylion argraffnod llawn yn amlwg ar eich proffil. Gallwch ddefnyddio dolenfer i'ch argraffnod mewn trydariad neu bostiad. Os nad yw'n ymarferol i osod argraffnod llawn ar ddelwedd, dylech gynnwys testun dolen neu logo neu arwyddlun gyda hyperddolen sy'n arwain at eich argraffnod llawn.

1.46 Ry'n ni hefyd yn argymell, os ydych yn defnyddio fforymau trafod ar-lein, eich bod yn gwneud yn siŵr bod y ffaith eich bod yn ymgeisydd yn glir lle bo modd.

Gwefannau a deunydd electronig arall

1.47 Dylech hefyd roi argraffnod ar ddeunydd electronig, fel gwefannau ac e-byst. Dylai'r argraffnod gynnwys enw a chyfeiriad yr hyrwyddwr a'r sefydliad y cafodd ei gynhyrchu ar ei ran.

Gwirfoddolwyr i ymgeiswyr yw rhifwyr sy'n sefyll tu allan i orsafoedd pleidleisio ac yn cofnodi rhifau pleidleiswyr y pleidleiswyr sydd wedi pleidleisio.

Beth i'w wneud a pheidio ei wneud ar ddiwrnod yr etholiad

1.48 Dylech:

- Sicrhau bod unrhyw rifwyr sy'n gweithio i chi yn dilyn ein beth ddylai rhifwyr ei wneud a pheidio ei wneud ac unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddir gan y Swyddogion Canlyniadau Lleol a Rhanbarthol.
- Sicrhau bod unrhyw asiantau sy'n mynychu gorsafoedd pleidleisio, sesiynau agor pleidleisiau post neu'r cyfrif yn deall y rheolau ynglŷn â chyfrinachedd y bleidlais.

- Gydymffurfio â cheisiadau gan staff yr orsaf bleidleisio neu'r Swyddogion Canlyniadau Lleol neu Ranbarthol am ymgyrchu yn agos at orsafoedd pleidleisio. Fodd bynnag, dylech gael rhoi eich neges i bleidleiswyr ar y diwrnod pleidleisio, gan gynnwys mewn unrhyw fannau cyhoeddus tu allan i fannau pleidleisio.
- Gwnewch yn siŵr bod unrhyw asiantiaid sy'n mynd i orsafoedd pleidleisio, sesiynnau agor pleidleisiau post neu'r cyfrif yn deall y rheolau ynghylch cyfrinachedd y bleidlais. I gael mwy o wybodaeth, gweler ein dogfennau ynghylch y gofynion cyfrinachedd ar gfyer y bleidlais, pleidleisio post a'r cyfrif.

1.49 Ni chewch:

- Ymgyrchu yn agos at orsafoedd pleidleisio mewn modd y gellid ei ystyried gan bleidleiswyr yn ymosodol neu'n fygythiol (er enghraifft, grwpiau mawr o gefnogwyr yn cludo baneri, neu gerbydau gydag uchelseinydd neu wedi eu gorchuddio â deunydd ymgyrchu).
- Dorri'r gofynion o ran cyfrinachedd y bleidlais. Mae hyn yn rhan hanfodol o unrhyw ddemocratiaeth fodern a bydd unrhyw doriadau'n cael eu cymryd o ddifrif. Yn arbennig, os ydych chi (neu eich asiantau) yn mynychu sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post cyn i'r bleidlais gau, ni chewch geisio adnabod ac/neu gyfleu sut mae pleidleisiau wedi cael eu marcio ar bapurau pleidleisio unigol.
- Cyn i'r bleidlais gau, cyhoeddi polau wrth fynd allan nac unrhyw bôl sy'n rhoi'r argraff ei bod ar sail gwybodaeth a roddwyd gan bobl ar ôl iddynt bleidleisio.

Cynnal hygrededd yr etholiad

1.50 Fel ymgeisydd byddwch chi yn un o wynebau cyhoeddus allweddol yr etholiad, a bydd eich gwrthwynebwyr, y cyfryngau a phleidleiswyr yn craffu ar eich ymddygiad. Dylai pleidleiswyr

allu bod yn hyderus y byddwch yn gallu cydymffurfio gyda'r gyfraith a chynnal hygrededd yn y broses etholiadol.

1.51 Mae'r person sy'n asiant etholiadol i chi sy'n gyfrifol am reoli eich ymgyrch etholiadol ac, yn benodol, am sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am ei reolaeth ariannol.

1.52 Dylech hefyd sicrhau bod eich cefnogwyr yn deall y gyfraith yn llawn ac yn gwybod beth sydd angen gwneud i sicrhau y gall pleidleiswyr gymryd rhan yn yr etholiad yn hawdd. Gall yr heddlu ond ymchwilio i honiadau o dwyll etholiadol lle bo tystiolaeth i ddangos bod trosedd wedi'i chyflawni, felly dylech allu cefnogi unrhyw honiadau pan fyddwch yn eu cyfeirio at yr heddlu. Dylech hefyd ystyried yr effaith ar hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd o wneud honiadau anwir neu heb sylwedd ynghylch ymddygiad ymgeiswyr eraill.

Rhestr troseddau

Dylech fod yn ymwybodol o nifer o droseddau etholiadol a throseddau heb fod yn rhai etholiadol, a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun pan fo angen.

Llwgrwobrwyo

1.53 Mae'r drosedd o lwgrwobrwyo yn cynnwys pan fydd rhywun yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn rhoi unrhyw arian neu'n caffael unrhyw swydd i neu dros unrhyw bleidleisiwr, er mwyn cymell unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio.

Tretio

1.54 Mae unigolyn yn euog o dretio os yw, cyn, yn ystod, neu ar ôl etholiad yn rhoi neu'n darparu unrhyw fwyd, diod, adloniant neu ddarpariaeth yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i ddylanwadu'n llwgr ar unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio. Mae angen i dretio fod â bwriad llwgr - nid yw'n berthnasol i letygarwch arferol.

Dylanwad gormodol

1.55 Mae unigolyn yn euog o ddylanwad gormodol os yw'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn defnyddio neu'n bygwth defnyddio grym, trais neu ataliad, neu'n achosi neu fygwth achosi anaf, difrod neu niwed er mwyn cymell neu orfodi'r unigolyn i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio.

1.56 Gall unigolyn fod yn euog o ddylanwad gormodol hefyd os yw'n rhwystro neu'n atal unrhyw bleidleisiwr rhag arfer ei hawl i bleidleisio yn rhydd – hyd yn oed pan fydd yr ymgais yn aflwyddiannus.

1.57 Nid dim ond at fynediad corfforol i'r orsaf bleidleisio mae dylanwad gormodol yn cyfeirio. Er enghraifft, gallai taflen sy'n bygwth defnyddio grym i gymell pleidleisiwr i bleidleisio mewn ffordd arbennig hefyd fod yn ddylanwad gormodol.

Cambersonadu

1.58 Cambersonadu yw pan fydd unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall naill ai drwy'r post neu'n bersonol mewn gorsaf bleidleisio, fel etholwr neu fel dirprwy. Mae'r drosedd hon yn berthnasol os yw'r unigolyn sy'n cael ei gambersonadu yn fyw, yn farw neu'n ffug.

1.59 Mae cynorthwyo, annog, cynghori neu gaffael y drosedd o gambersonadu hefyd yn drosedd.

Datganiadau ffug am gymeriad neu ymddygiad personol ymgeisydd

1.60 Mae'n arfer anghyfreithlon gwneud neu gyhoeddi datganiad o ffaith ffug am gymeriad neu ymddygiad personol ymgeisydd er mwyn effeithio ar ddychweliad ymgeisydd mewn etholiad.

1.61 Nid yw datganiadau ffug nad ydynt ynghylch cymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd arall yn anghyfreithlon dan gyfraith etholiadol, ond gellid eu hystyried yn enllib neu'n athrod.

Datganiadau ffug ar bapurau enwebu

1.62 Mae'n drosedd rhoi datganiad ffug yn fwriadol ar bapur enwebu. Er enghraifft, os ydych yn gwybod eich bod wedi eich gwahardd rhag cael eich ethol, ni chewch lofnodi'r cydsyniad i enwebiad.

Gwybodaeth gofrestru ffug a chais pleidleisio drwy'r post/dirprwy ffug

1.63 Mae'n drosedd rhoi gwybodaeth ffug ar ffurflen gais cofrestru, pleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy. Mae gwybodaeth ffug yn cynnwys llofnod ffug.

Cais ffug i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy

1.64 Mae unigolyn yn euog o drosedd os yw'n ymgeisio am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy er mwyn cael pleidlais nad oes ganddo'r hawl iddi neu i amddifadu rhywun arall o'u pleidlais.

Troseddau pleidleisio lluosog a phleidleisio drwy ddirprwy

1.65 Mae troseddau amrywiol yn ymwneud â phleidleisio lluosog a phleidleisio trwy ddirprwy, gan gynnwys pleidleisio drwy'r post neu ddirprwy pan yn destun i anallu cyfreithiol i bleidleisio a chymell neu gaffael un arall i gyflawni'r drosedd.

Torri cyfrinachedd y bleidlais

1.66 Rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r broses etholiadol neu sy'n mynychu rhai gweithrediadau gadw cyfrinachedd y bleidlais. Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn rhoi copi o'r gofynion cyfrinachedd swyddogol i bawb sy'n mynd i agoriad pleidleisiau post neu gyfrif y papurau pleidleisio, ac i asiantau pleidleisio.

Deunydd cyhoeddusrwydd yr ymgyrch

1.67 Mae rhai troseddau yn ymwneud yn benodol â deunydd cyhoeddusrwydd yr ymgyrch. Rhaid i ddeunydd cyhoeddusrwydd yr ymgyrch gynnwys argraffnod, beidio â bod yn debyg i gerdyn pleidleisio, a pheidio â chynnwys datganiad ffug o ran cymeriad neu ymddygiad personol ymgeisydd arall.

Nid ydym yn rheoleiddio cynnwys deunydd ymgyrchu ac ni allwn roi sylwadau ar gyfreithlondeb unrhyw ddeunydd etholiadol penodol tu hwnt i'r hyn sy'n cael ei drafod yn y canllawiau hyn.

Casineb hiliol

1.68 O dan y Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986, mae'n drosedd cyhoeddi neu ddosbarthu deunydd bygythiol, difenwol neu sarhaus a fwriedir i ennyn casineb hiliol neu sy'n debygol o ennyn casineb hiliol.

Adrodd ynghylch honiadau o gamymddwyn etholiadol

1.69 Os oes gennych reswm i gredu bod trosedd sy'n ymwneud ag etholiad wedi ei chyflawni, dylech yn gyntaf godi'r mater gyda'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, y Swyddog Canlyniadau Lleol neu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

1.70 Efallai y byddant yn gallu egluro p'un a oes trosedd sy'n ymwneud ag etholiad wedi cael ei chyflawni a chyfeirio'r mater i'r heddlu os oes angen, neu roi manylion cyswllt yr heddlu i chi ar gyfer yr ardal berthnasol er mwyn i chi adrodd iddynt ynglŷn â'ch honiad.

1.71 Os oes gennych dystiolaeth wirioneddol fod trosedd etholiadol wedi cael ei chyflawni, dylech gysylltu â'r heddlu **yn syth,** gan ddenfyddio'r rhif nid mewn argyfwng 101, heblaw bod trosedd yn digwydd ar y pryd, ac yn yr achos hwnnw dylech ffoniod'r llinell frys **999**

1.72 Bydd pob Heddlu wedi dynodi Pwynt Cyswllt Unigol (a elwir yn SPOC) fydd yn gallu rhoi cyngor i chi i sicrhau bod eich honiadau yn cael eu hymchwilio. Dylech fod yn barod i roi datganiad a phrofi eich honiad

1.73 Os nad ydych am roi datganiad i'r heddlu, gallwch adrodd eich pyrderon yn ddienw ar wefan Crimestoppers neu drwy ffonio Crimestoppers ar 0800 555 111.

1.74 Yng Nghymru a Lloegr mae manylion cyswllt y Swyddog Cofrestru Etholiadol neu'r Swyddog Canlyniadau Lleol ar gael ar ein gwefan dy bleidlais di, www.dybleidlaisdi.co.uk

1.75 Nodwch, os yw eich honiad ynglŷn â materion ariannol plaid, etholiad neu ymgyrchydd cofrestredig, fel gwariant neu roddion, yna dylech ddilyn y cyngor ar roddir yn y ddolen ganlynol: http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/our-work/roles-and-responsibilities/our-role-as-regulator-of-political-party-finances.

Beth os ydych chi wedi gwneud camgymeriad?

1.76 Os ydych chi neu'ch asiant wedi gwneud camgymeriad a gweithredu'n groes i'r rheolau etholiadau, gallwch wneud cais am ryddhad o gosbau am unrhyw drosedd.

1.77 Dylech bob amser geisio cyngor cyfreithiol os ydych yn ystyried gwneud cais am ryddhad.

1.78 Os ydych yn ymgeisydd yng Nghymru a Lloegr:

- ewch i www.hmcourts-service.gov.uk/HMCSCourtFinder/FormFinder.do, a nodwch rif ffurflen **LOC002**

neu

- cysylltwch â'r Swyddfa Deisebau Etholiadol yn y Llysoedd Barn Brenhinol yn:

The Election Petitions Office

Room EE113

Royal Courts of Justice

Strand

London WC2A 2LL
E-bost: election_petitions@hmcts.gsi.gov.uk
Ffôn: 020 7947 6687
Ffacs: 0870 324 0024